

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2011 am 7.30yh  
yn Ystafell Berkley, Penyparc**

## **Presennol**

Cyng. Llinos Price (Cadeirydd)  
Cyng. Ann Stokoe  
Cyng. Des Davies  
Cyng. Auriol Williams

Cyng. Dilwyn Jenkins (Is-Gadeirydd)  
Cyng. Islwyn Iago  
Cyng. Morris Davies (gadael 7.50)  
Cyng. Haydn Lewis (Aelod Lleol y Cyngor Sir)  
Hildreth Owen (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i'r cyfarfod. Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngorwyr Lynn Jones, Huw Jones.

**3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion Tachwedd yn gywir.

**4. Datgelu buddiannau personol**

**5. Materion yn codi**

**Adventure Playground Wales Ltd:**

**Cyfarfod Ymgynghorol nos iau, 13 Hydref:**

**Carafanau tu cefn i Penffordd:**

**Cyngerdd lleol er lles bobl hŷn:** Cynhaliwyd cyngerdd a drefnwyd gan y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, nos Fawrth, 29 Tachwedd yng Nghapel Penyparc, gyda phlant a phobl ifanc yr ardal yn cymryd rhan. Bu'r gyngerdd yn llwyddiannus tu hwnt, gyda'r elw yn mynd tuag at ginio Nadolig i henoed sydd dros 70 oed yn y gymuned ar ddydd Gwener, 9 Rhagfyr yng Nghaffi Emlyn, Tanygroes. Yn ogystal â'r arian a godwyd ar y noson, derbyniwyd cyfraniad oddi wrth Gapel Ffynonbedr a hefyd cafwyd defnydd Capel Penyparc yn rhad ac am ddim i'r achlysur. Er bod yr elw o'r gyngerdd yn ddigonol, awgrymwyd bod y gyllideb am y flwyddyn 2012/13 yn cynnwys £200 tuag at y weithred hon. Cynigiwyd hyn gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins. Gofynnwyd i'r clerch gofnodi nad oedd y Cyng. Islwyn Iago yn cytuno â'r syniad.

**Bin Sbwriel tu allan i Ystafell Berkley:** Mae'r Clerc wedi derbyn prisiau am ddu fin sbwriel. **Gofynnwyd i'r clerch archebu bin am bris o £98.55 + TAW.**

**Ffagl Olympaidd:** Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol CSC yn gofyn am wybodaeth ynglŷn ag amseriad y Ffagl Olympaidd drwy bentref Penyparc (**gweler eitem 10, rhif 183**). **Cafwyd ateb yn dweud nad oedd y Fflam yn gorffwys ar ei thaith ym mhentref Penyparc. Mynegodd y Cyngorwyr eu siom o hyn a gofynnwyd i'r clerch gysylltu ag Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol CSC yn datgan hyn.**

**Ysbyty Bronglais:** Ateb i lythyr y Cyngor yn dweud mai Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda ydyw'r person i ateb cwynion ynglŷn â'r bygythion i ddileu gwasanaethau Ysbyty Bronglais. **Cytunodd y cyngorwyr eu bod wedi gwneud cymaint â phosib ac nid oedd diben ysgrifennu eilwaith.**

**6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

<i>GWyl Fawr Aberteifi (cais am y flwyddyn 2011)</i>	£100 (wedi ei dalu)
Cronfa Goffa T. Llew Jones	£50 (wedi ei dalu)
Clwb Pêl-droed Penyparc (cyfraniad at byst pêl-droed)	£272 (wedi ei dalu)
<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd</i>	£100 (wedi ei dalu)
<i>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Penyparc</i>	£100 (wedi ei dalu)
<i>Ysgol Feithrin Penyparc</i>	£100 (wedi ei dalu)
"Homestart" (Cefnogaeth a Chyfeillgarwch i deuluoedd)	(I'w drafod ym mis Ebrill 2012)

*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Cynllunio

Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Rhagfyr 2011.

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

Rhif y Cais	Cyfeiriad	Penderfyniad y Cyngor Sir
A110781	Tyhen, Ferwig – Adeilad newydd storio bwydydd amaethyddol.	Wedi ei ganiatáu.
A110780	Tyhen, Ferwig – Adeilad newydd storio peiriannau amaethyddol.	Wedi ei ganiatau.

## 8. Cyfarfod Safle.

**Cae Chwarae'r Clwb Pêl-droed:** Cyfarfu'r Cynghorwyr Dilwyn Jenkins, Des Davies ac Islwyn Iago ar safle'r cae pêl-droed ddydd Gwener 11 Tachwedd. Nid oeddent yn teimlo fod problem enfawr gydag ansawdd wyneb y cae erbyn hyn heblaw fod hen byst pêl-droed wedi eu gadael yno. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Richard Abbott i'w symud oddi yno.

## 9. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu.

Dŵr Cymru (Dŵr Ystafell Newid Ystafell Berkley)	101203	£63.89
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (Aelodaeth)	101204	£97.00
Argraffwyr E. L. Jones (Llungopïau a phapur swyddfa)	101205	£33.48

Cynigiwyd gan y Cyng. Islwyn Iago ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Derbyniadau:** Dim.

**Materion ariannol eraill:**

**Cyllideb/Praesept 2012-13.** Copi o'r gyllideb awgrymedig wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr ymlaen llaw.

- (i) Tâl y Clerc am y flwyddyn 2012-13: Yn aros fel ag y mae tan Ebrill 2013.
- (ii) Cytunwyd ar Braepryd o £10,700 am 2012-13.

Cynigiwyd gan y Cyng Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng Auriol Williams.

## 9. Gohebiaeth

178	Tony Cole	Pris am drasio llwybrau.	Derbyniwyd hwn ar 10 Tachwedd gyda dyddiad cau 31 Hydref. Y clerc wedi ysgrifennu gan egluro iddo bod y contract wedi ei osod. <b>Nodwyd</b>
179	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Prifyrdd)	Cadarnhad eu bod wedi derbyn cwyn ynglŷn â golau stryd yn Gwbert (SL73-787). Hefyd cais i glirio'r blodau gwylt tu allan i Hen Ysgol y Ferwig.	<b>Nodwyd. Mae'r blodau wedi eu clirio.</b>
180	Tai Canolbarth Cymru	Posteri ynglŷn â recriwtio aelodau newydd i ymuno â'i Bwrdd Rheoli.	Copi o'r poster wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr. <b>Nid oedd diddordeb am fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yng Nghanolbarth Cymru.</b>
181	"Homestart"	Llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol a hefyd am wirfoddolwyr i helpu gyda'u	I'w drafod ym mis Ebrill 2012

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

		gwaith.	
182	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Copi o lythyr ddanfonwyd i'r Cyngor Sir yn ymwneud â phrydles Cae Gwyrdd, Penyparc.	Gofynnwyd i'r clerc gael gwybodaeth ariannol ynglŷn â chostau cynnal a chadw cyn bod y Cyngor yn trafod y mater.
183	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Addysg)	Ateb ynglŷn â threfniadau taith y Ffagl Olympaidd, 27 Mai 2012.	<b>Gweler eitem 5</b>
184	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gyllid)	Trefniadau Praesept 2012/13	<b>Gweler eitem 9</b>
185	Llywodraeth Cymru	Ymateb i lythyr yn ymwneud â bygythiadau i Ysbyty Bronglais.	<b>Gweler eitem 5</b>

## 11. Materion Eraill.

**Cist Halen yn y Ferwig:** Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Mr Ian Williams, Cyngor Sir Ceredigion, yn datgan eu bod yn lleoli cist halen tu allan i'r Hen Ysgol yn ddi-dâl.

**Ceubwll ar y ffordd rhwng cyffordd Y Bryn a Tygwyn, Ferwig:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r uchod. **Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir.**

**Pyst Pren o Nantyferwig hyd fynedfa'r traeth:** Yn dilyn cyfarfod safle ddiwedd fis Medi gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto ynglŷn ag ailosod y pyst pren sydd yn cefnogi'r rheiliau ar hyd y rhan yma o Patch. Gofynnwyd iddynt ystyried cwblhau'r gwaith cyn i'r llwybr arfordirol agor yn ei gyfanrwydd ym mis Mai 2012.

**"Balchder Pentrefi":** Awgrymodd y Cyng. Auriol Williams y byddai'n werth ystyried lleoli Bwrdd Gwybodaeth ar safle yn y gymuned. Penderfynwyd trafod hyn ddechrau'r flwyddyn 2012.

**Dŵr ar y ffordd i Mwnt a hefyd tu allan i Fagwr, Penyparc:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir gan ofyn iddynt glirio'r gwteri yn y ddau fan hyn.

**Pyst Conrid ar hyd y rhan newydd o'r llwybr arfordirol yn Gwbert:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i achwyn ynglŷn â chyflwr y pyst conrid ar hyd y ffordd yma. Mae nifer ohonynt wedi torri ac mewn cyflwr peryglus ac maent yn amharu ar brydferthwch yr olygfa naturiol. Gofynnwyd i'r Cyngor Sir hefyd osod arwyddion lle nad oes pyst er mwyn diogelwch.

**Diwedduriad ynglŷn â gorffen y llwybr arfordirol yn Gwbert:** Gan na dderbyniwyd ateb i lythyr y Cyngor anfonwyd i Mr Ian Dutch ym mis Tachwedd, gofynnwyd i'r clerc gysylltu unwaith eto ag ef (a danfon copi i Miss Bronwen Morgan, Prif Weithredwr) yn gofyn am ddiwedduriad ynglŷn â gorffen y llwybr cyhoeddus mewn da bryd erbyn agoriad swyddogol y llwybr ym Mai 2012. Hefyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir am yr eildro ynglŷn â'r biben ddŵr a ddaw o'r cae wrth ochr "Engar", ac sydd yn gollwng dŵr i'r llwybr gan beri anhawster i gerddwyr.

**Uno Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion a Phowys:** Datganwyd pryder gan nifer o gynghorwyr wedi clywed y datblygiadau honedig i uno Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion a Phowys. Derbynir adroddiad llawn gan y Cyngorydd Sir lleol yng nghyfarfod Ionawr.

## 12. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor: 9 Ionawr 2012 yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30yh.

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2012:

6 Chwefror (YB)	5 Mawrth (F)	2 Ebrill (YB)	14 Mai (F)	11 Mehefin (YB)
9 Gorffennaf (F)	3 Medi (YB)	1 Hydref (F)	5 Tachwedd (YB)	3 Rhagfyr (F).

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig.      YB = Ystafell Berkley      CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 5 December 2011 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

### **Present:**

Cllr Llinos Price (Chairperson)	Cllr Dilwyn Jenkins (Vice Chairman)
Cllr Ann Stokoe	Cllr Islwyn Iago
Cllr Des Davies	Cllr Morris Davies (left 7.50)
Cllr Auriol Williams	Cllr Haydn Lewis (Local member of CCC) Hildreth Owen (Clerk)

**1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the meeting. The Council then proceeded to discuss the agenda.

**2. Apologies for absence:** Cllrs. Lynn Jones, Huw Jones.

**3. Minutes of the previous meeting.**

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Des Davies that the minutes for November were correct.

**4. Declaration of personal interests**

**5. Matters arising.**

**Adventure Playground Wales Ltd:**

**Consultative Meeting, Thursday, 13 October.**

**Caravans parked to the rear of Penffordd:**

**Concert for the benefit of senior citizens:** A concert organised by the Chairperson, Cllr Llinos Price, was held on Tuesday, 19 November in Penyparc Chapel with children and youth from the district participating. The evening was a resounding success with the proceeds allocated towards the Christmas dinner for senior citizens over 70 years of age in the community to be held at Emlyn Café, Tanygroses. In addition to the proceeds of the evening's event, a contribution was received from Ffynnonbedr Chapel, and Penparc Chapel was kindly hired free of charge. **Although the proceeds were sufficient, it was decided by Council to set aside a budget of £200 towards a similar event in 2012.** This was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins. The clerk was asked to record Cllr Islwyn Iago's opposition to the proposal.

**Litter bin outside Ystafell Berkley:** The Clerk has received prices for the bins. **She was asked to order two bins at a cost of £98.55 each + VAT.**

**Olympic Torch:** The Clerk had written to the Education and Community Services of the County Council requesting information as to the timetable of the Olympic Torch visiting Penyparc (see item 10, no. 183). It was made clear that the Torch would not stop at Penyparc on its journey north through Ceredigion. **The Councillors expressed their disappointment and the Clerk was asked to inform the County Council of this.**

**Bronglais Hospital:** A response was received stating that all complaints concerning the threats to the hospital should be addressed to the Chief Executive of the Hywel Dda Health Board. **Councillors agreed that their support of the letter forwarded by Aberystwyth Town Council was sufficient.**

**6. Requests for financial support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

<i>Gŵyl Fawr Aberteifi (application for 2011)</i>	£100 (paid)
T. Llew Jones Memorial Fund	£ 50 (paid)
Penyparc Football Club (Donations towards goal posts)	£272 (paid)
<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd</i>	£100 (paid)
<i>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Penyparc</i>	£100 (paid)
<i>Ysgol Feithrin Penyparc</i>	£100 (paid)
"Homestart" (Support and Friendship for families)	(To be discussed in April 2012)
<i>Names in italics = accounts forwarded with applications</i>	

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Planning

**County Council's Planning Meeting.** Next meeting: 14 December 2011

**Applications approved or refused by the County Council.**

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A110780	Tyhen, Ferwig – Agricultural machinery storage building.	Approved
A110781	Tyhen, Ferwig – New Agricultural feedstuffs storage building	Approved

## 8. Site meeting.

**The Football Field Playing Ground:** Cllrs Dilwyn Jenkins, Des Davies and Islwyn Iago met at the football field on Friday, 11 November. They concluded that there was not an insurmountable problem with the condition of the surface with the exception that the goalposts were still in situ. **The Clerk was asked to contact Richard Abbott to request their removal.**

## 9. Financial Matters.

### Bills paid:

Welsh Water (Water rates for Changing Rooms, Ystafell Berkley)	101203	£63.89
Society of Local Council Clerks (Membership)	101204	£97.00
Argraffwyr E. L. Jones (Photocopies and paper etc)	101205	£33.48

It was proposed by Cllr Islwyn Iago and seconded by Cllr Auriol Williams that the above bills be paid.

**Receipts:** No receipts

**Other financial matters.** None

**Budget/Precept 2012-13.** A copy of the suggested budget was forwarded to Councillors prior to the meeting.

- (i) Clerk's salary for 2012-13: To remain the same until Ebrill 2013.
- (ii) It was decided on a precept of £10,700 for 2012-13.  
Item (ii) was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Auriol Williams

## 10. Correspondence

178	Tony Cole	Quote for Path Trashing	This quote was received on the 10 November with the closing date being 31 October. The clerk has informed Mr Cole explaining that the contract has now been placed.
179	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receipt of letter regarding street light at Gwbert (SL73-787). Also the request to clear the wild flowers growing outside Hen Ysgol y Ferwig.	<b>Noted. Flowers have been cleared.</b>
180	Mid-Wales Housing Association Ltd	Posters regarding recruiting new members to join its Board of Management.	Copy of posters forwarded to all Councillors. <b>No interest shown by Councillors, as meetings are held in mid Wales.</b>
181	"Homestart"	Letter asking for financial help and also for volunteers to assist with their work.	To be discussed in April 2012.
182	Pwyllgor Lles Pentref	Copy of letter sent to Ceredigion County	Clerk was asked to obtain financial

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

	Penyparc	Council regarding the lease of Cae Gwyrdd, Penyparc.	information regarding the cost of running this project before the Council can discuss the matter.
183	Ceredigion County Council (Department of Education & Community Services)	Reply regarding arrangement for the Olympic Flame on its journey through Ceredigion on 27 May 2012.	<b>See item 5</b>
184	Ceredigion County Council (Finance Department)	Precept Arrangements for 2012/13	<b>See item 9</b>
185	Welsh Government	Reply to letter regarding Bronglais Hospital.	<b>See item 5</b>

## 11. Other Matters

**Salt container in Ferwig:** Mr Ian Williams, Ceredigion County Council, confirmed that a salt container would be placed outside the Old School in Ferwig free of charge.

**Potholes on the highway between Y Bryn and Tygwyn, Ferwig:** A complaint has been received from a member of the public regarding the above. **The Clerk was asked to inform the County Council.**

**Wooden posts from Nantyferwig to the slipway at Patch:** Following the meeting held at the end of September, the Clerk was asked to request that the County Council replace the wooden posts supporting the fence on this section of the road, and to ensure that the work is completed before the official opening of the coastal path in May 2012.

**“Balchder Pentrefi”:** Cllr Auriol Williams suggested that the Council considers locating an information board in the community. It was agreed to discuss this item early in 2012.

**Water on the highway to Mwnt and near Fagwr, Penyparc:** The Clerk was asked to contact the County Council requesting them to clear the drains at these locations.

**Concrete supports on the new coastal path section at Gwbert:** The Clerk was asked to contact the County Council complaining that the concrete posts supporting the fence along this section be replaced as a number of them were in a very poor condition and constituted a danger. They also impede on the coastal views from that position.

**Update on the last section of the coastal path at Gwbert:** As Mr Ian Dutch had not replied to a previous letter from the Council, the Clerk was asked to contact the department yet again with a copy to be forwarded to Miss Bronwen Morgan, the Chief Executive, asking for an update on the purchase of this last section of land at Gwbert. The County Council's attention also to be drawn to the unsightly drainpipe protruding onto the path near “Engar” which is polluting water onto the path and causing difficulty to walkers.

**Combining the services of Ceredigion and Powys:** Concern was expressed by Councillors regarding the proposed unification of Social Services between Ceredigion and Powys. An update of proposals to be received from the local member of the County Council at the next meeting in January.

## 12. Date of next Council Meeting: 9 January 2012 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Council Meetings 2012:

6 February (YB)	5 March (F)	2 April (YB)	14 May (F)	11 June (YB)	9 July (F)
3 September (YB)	1 October (F)	5 November (YB)	3 December (F).		

Denotes: F = Ferwig Old School.      YB = Ystafell Berkley.      AGM = Annual General Meeting